Blas ar Waith

**Blas ar Waith**

**Cyflwynydd:** Croeso i rifyn arall o'r rhaglen **Blas ar Waith**. Yr wythnos hon, rydyn ni'n cymryd teitl y rhaglen yn llythrennol – **blas** ar waith.

Os ydych chi'n hoffi hufen iâ, bydd y rhaglen hon at eich dant oherwydd rydyn ni'n mynd i gael sgwrs gyda blasolegydd – un sy'n blasu hufen iâ drwy'r dydd ac sy'n cael ei thalu am wneud! Croeso, Fanila Preis.

Fanila: Diolch.

**Cyflwynydd: I ddechrau, sut dewisoch chi flasu hufen iâ fel gyrfa?**

Fanila: Wel, roeddwn i wrth fy modd yn bwyta hufen iâ pan oeddwn i'n blentyn. Roeddwn i'n hoffi arbrofi gyda gwahanol fathau a'u cymharu nhw i weld pa un oedd y blas gorau. Fe es i i'r brifysgol i wneud cwrs Gradd mewn Gwyddor Bwyd. Felly, ar ôl gadael, penderfynais i gyfuno fy hoffter o hufen iâ gyda'r cymhwyster mewn Gwyddor Bwyd - a chael gyrfa flasus yn y fargen!

**Cyflwynydd: Rydych chi'n galw'ch hun yn 'flasolegydd'. Beth ydy hynny?**

Fanila: Wel, mae rhan gyntaf y gair yn ymwneud â 'blas'. Mae ail hanner y gair, sef _egydd, yn cyfleu person mewn swydd - mae'n debyg iawn i'r gair 'biolegydd', 'seicolegydd' neu 'sŵolegydd'. Dw i'n flasolegydd, sef rhywun sy'n blasu bwyd.

**Cyflwynydd: Sut mae bod yn 'flasolegydd'?**

Fanila: Fel arfer, mae person sy'n flasolegydd wedi bod i'r coleg i wneud gradd mewn Gwyddor Bwyd. Weithiau, bydd blasolegydd hufen iâ wedi cael profiad o weithio mewn siop hufen iâ hefyd. Felly mae'n weddol gyfarwydd â'r prif fathau o hufen iâ ac mae'n gwybod pa flas sydd fwyaf poblogaidd.

**Cyflwynydd: Beth yw natur eich gwaith?**

Fanila: Wel, yn syml iawn, blasu hufen iâ. Ond dydy e ddim mor syml â hynny a dweud y gwir. Rhaid i chi fedru blasu nifer o wahanol flasau mewn bore. Rhaid i chi weithio mewn amgylchedd hollol lân – mae hylendid yn hanfodol. Byddwch chi hefyd yn treulio amser yn dyfeisio blasau newydd, felly rhaid i chi gael dychymyg da a rhaid i chi wybod bod 'marchnad' ar gael ar gyfer y blas newydd rydych chi'n creu.

**Cyflwynydd: Pa offer sydd ei angen arnoch chi?**

Fanila: Llwy - ond rhaid cael math arbennig o lwy. Dw i'n defnyddio llwy aur ond mae rhai pobl yn defnyddio llwy arian oherwydd dydy llwy aur neu lwy arian ddim yn gadael ei flas fel mae llwy bren neu lwy blastig yn ei wneud. Mae angen tafod sensitif hefyd er mwyn medru gweld y gwahaniaeth rhwng gwahanol fathau o flasau. Dw i'n gallu dweud y gwahaniaeth rhwng llawer iawn o wahanol fathau o hufen iâ siocled, er enghraifft.

**Cyflwynydd:** **Sut rydych chi'n treulio'ch diwrnod yn y gwaith?**

Fanila: Wel, bydda i'n blasu tua deg ar hugain o wahanol fathau o hufen iâ yn y bore ac yn penderfynu os ydyn nhw'n ddigon da. Dydw i byth yn llyncu'r hufen iâ, cofiwch, neu byddwn i'n dew fel casgen erbyn hyn! Yn y prynhawn, bydda i'n sicrhau bod safon yr hufen iâ yn ddigon da, ac yn sicrhau bod y cynhwysion a phatrwm y lliwiau yn gytbwys (os oes gwahanol liwiau yn yr hufen iâ). Weithiau, bydda i'n arbrofi gyda blas newydd – ond mae'r broses o greu blas newydd yn gallu cymryd dros flwyddyn.

**Cyflwynydd:** **Ydych chi'n gorfod bod ar ddeiet drwy'r amser?**

Fanila: Na, dim ar ddeiet fel y cyfryw, ond rhaid i fi fod yn ofalus o'r hyn dw i'n ei fwyta. Er enghraifft, alla i ddim bwyta pizza neu gyrri yn ystod yr wythnos neu bydd y blas cryf yn effeithio ar fy ngallu i flasu hufen iâ y diwrnod wedyn. Dydw i ddim yn smygu nac yn yfed alcohol. Gyda llaw, fydda i ddim yn defnyddio persawr cryf ychwaith!

**Cyflwynydd:** **Pa gyngor allwch chi ei roi i rywun sydd eisiau bod yn flasolegydd hufen iâ?**

Fanila: Rhaid i chi hoffi hufen iâ yn fawr! Ewch i gael cymhwyster da - ewch i'r brifysgol i gael gradd mewn Gwyddor Bwyd os gallwch chi. Triwch gael gwaith rhan amser mewn siop gwerthu hufen iâ yn ystod gwyliau'r haf (ond peidiwch â gadael i'r perchennog eich gweld chi'n bwyta hufen iâ drwy'r dydd!) Os cewch chi'ch dal, dywedwch eich bod yn hyfforddi i fod yn flasolegydd! Gwyliwch eich deiet - dim bwyd sbeislyd - a chadwch eich ceg yn lân ac yn iach.

**Cyflwynydd:** **Fanila Preis, mae wedi bod yn bleser sgwrsio gyda chi. Diolch i chi am eich cwmni heddiw. A dyna ddiwedd rhaglen radio arall yn ein cyfres, Blas ar Waith. Gobeithio eich bod chi wedi cael 'blas' ar ein rhaglen ni heddiw ac y byddwch chi'n ymuno â ni yr wythnos nesa eto. Hwyl fawr.**